View this email in your browser

cwlwm seiriol

Croeso i gylchlythyr cyntaf Cwlwm Seiriol!  Cyfle i ni adrodd yn ôl i chi am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf a'r gweithgareddau sydd i ddod.

*Welcome to Cwlwm Seiriol's first newsletter!  An opportunity for us to tell you about the things that have been happening in recent months and activities to come.*

---

## Dewch i'n nabod!
## *Get to know us!*







Delyth Phillipps ydw i (ar y chwith), fi yw'r Cydlynydd Ymgysylltu â'r Gymuned

y sesiynau hyfforddi a chysylltu efo'r gwirfoddolwyr.

Cyn dod i weithio i Menter Môn roeddwn wedi gweithio fel Swyddog Lles Cymunedol, Hyfforddwr, Addysgwr Amgylcheddol ac Ymchwilydd Teledu. Mae gennyf radd mewn Bioleg a Diploma ôl-radd mewn Rheolaeth Cefn Gwlad.

Rebecca Pritchard ydw i (ar y dde). Teitl fy swydd yw Uwch Swyddog Cwlwm Seiriol - Rheoli Tir. Mae fy rôl yn cynnwys gweithio'n agos gyda phartneriaid y prosiect Simon Hunt (Coed Cymru) a Hilary Kehoe (PONT) i ymgymryd â gwaith cadwraeth i wella'r cynefinoedd a chreu a gwella coridorau bywyd gwyllt a chysylltiadau llwybr troed.

Cychwynais fy ngyrfa yn gweithio fel gweinyddwraig a chydlynydd gwirfoddolwyr i Gymdeithas Eryri cyn dechrau hefo Menter Môn yn 2001 fel Swyddog Bioamrywiaeth yn gweithio'n benodol ar brosiectau gwarchod mamolion brodorol ar Ynys Môn.  Ar ôl cyfnod o fagu teulu, cychwynais yn ôl hefo Menter Môn mis Mawrth eleni yn rhan amser ar brosiect cyffrous Cwlwm Seiriol. Mae gennyf radd mewn Bioleg a Diploma ôl-radd mewn Rheolaeth Cefn Gwlad.

*My name is Delyth Phillipps (on the left), I am the Community Engagement Coordinator for the project.  This means speaking with people in the Seiriol Ward to discuss the things that the project has to offer.  I am responsible for organising the event, the training sessions and liaising with the volunteers.*

*Before coming to work for Menter Môn I had worked as a Community Wellbeing Officer, a Trainer, an Environmental Educator and a Television Researcher.  I have a degree in Biology and a Post-graduate Diploma in Countryside Management.*

*I'm Rebecca Pritchard (on the right). My job title is Cwlwm Seiriol Senior Officer - Land Management. My role involves working closely with project partners Simon Hunt (Coed Cymru) and Hilary Kehoe (PONT) to undertake conservation work to enhance the habitats and create and improve wildlife corridors and footpath linkages.*

*I began my working life as an administrator and volunteer coordinator for the Snowdonia Society before starting with Menter Môn in 2001 as a Biodiversity Officer working specifically on native mammal conservation projects on Anglesey. After a period of raising a family, I returned to Menter Môn in March*

## Be 'da ni 'di bod yn wneud flwyddyn yma
## *What we go up to this year*





Mae wedi bod yn flwyddyn brysur! Cynhaliwyd confensiwn crefftau'r goedwig wythnos o hyd ym mis Mawrth, a gynigiodd gyfleoedd i ddysgu am sgiliau crefft coed traddodiadol a rhoi cynnig arnynt. Ym mis Mehefin, Gerddi Haulfre yn Llangoed oedd y lleoliad ar gyfer Gŵyl Ganol Haf a oedd yn canolbwyntio ar weithgareddau coedwig gan gynnwys crefftau byw yn y gwyllt ac a roddodd gyfle i bobl gwrdd â merlod Cwlwm Seiriol a dod i ddysgu am bori cadwraeth.

*It's been a busy year!  A week-long coppice crafts convention was held in March ehich offered opportunities to learn about and try some traditional coppice craft skills.  In June, Gerddi Haulfre in Llangoed was the setting for a Mid-Summer Festival which focused on woodland activities including bushcraft and gave people the opportunity to meet the Cwlwm Seiriol ponies and find out about conservation grazing.*





Yn ystod tymor yr haf cymerodd disgyblion blwyddyn 6 o ysgolion cynradd Beaumaris a Llangoed ran mewn prosiect o'r enw Wicinatur a roddodd gyfle iddynt ddysgu am fyd natur yng Ngwarchodfa Natur Leol Aberlleiniog a chofnodi'r wybodaeth ar Wicipedia, y Gwyddoniadur Cymraeg ar-lein. Cynhaliwyd Bioblitz cyntaf Cwlwm Seiriol yn Llanddona yn mis Awst i roi cyfle i bobl lleol ddysgu am a chofnodi yr amrywiaeth o rywogaethau a welson nhw yn ystod y dydd.  Roedd hefyd cyfle i wylio arddangosiad o rholio rhedyn gan Ceffylau Gweithio Carnog yn Rhos Llaniestyn.

*During the summer term year 6 pupils from Beaumaris and Llangoed primary schools took part in a project called Wicinatur that gave them the opportunity to learn about nature at the Aberlleiniog Local Nature Reserve and record the information on Wicipedia, the Welsh on-line Encyclopedia. The first Cwlwm Seiriol Bioblitz was held in Llanddona in August to give local people the opportunity to learn about and record the variety of species they came across during the day. There was also an opportunity to watch a demonstration of bracken rolling by the Carnog Working Horses at Rhos Llaniestyn.*





Mae digonedd o waith cadwraethol i'w wneud i wella'r cynefinoedd yn y gwarchodfeydd natur lleol ac i gadw llwybrau troed a llwybrau ceffylau mewn cyflwr da.  Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae'r gwaith hyn wedi cynnwys torri prysgwydd a chael gwared o blanhigion estron ymledol.  Gwnaethpwyd y gwaith hanfodol hyn gan wirfoddolwyr dan oruchwyliaeth.

*condition. Over the last year this work has included scrub clearance and the removal of invasive alien plants. This essential work was carried out by supervised volunteers.*





Mae prosiect Cwlwm Seiriol yn cynnig cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd ac yn ystod y flwyddyn yma rydym wedi rhedeg sesiynau hyfforddi ar sut i wyrio anifeiliaid pori a sut i ddefnyddio pladur.  Mae pori cadwraethol yn ran bwysig o'r prosiect ac mae gennym bump o ferlod lled-fferal o'r Carneddau i helpu efo'r gwaith yma. Rydym yn ddiolchgar iawn i ddau wirfoddolwr lleol sydd wedi cytuno i gadw llygad arnyn nhw. Mae'r pladur yn declun traddodiadol sy'n medru torri llysdyfiant o bob math heb greu sŵn, dirgryniad na mwg.

*The Cwlwm Seiriol project offers opportunities to learn new skills and during this year we have run training sessions on how to check grazing animals and how to use a scythe. Conservation grazing is an important part of the project and we have five semi-feral ponies from the Carneddau to help with this work. We are very grateful to two local volunteers who have agreed to keep an eye on them. The scythe is a traditional tool that can cut vegetation of all kinds without creating noise, vibration or smoke.*

## Edrych Ymlaen
## *Looking Forward*

Rydym yn bwriadau cynnal pob math o weithgareddau cyffrous dros y flwyddyn nesaf gan gynnwys diwgyddiad Awyr Dywyll yn y flwyddyn newydd a llwybr celf yn y goedwig yn ystod gwyliau Pasg. Bydd cyfle i gymryd rhan mewn tasgau cadwraethol yn y gwarchodfeydd natur lleol pob dydd Mawrth ac i ddysgu sgiliau newydd trwy sesiynau hyfforddi.  Rydych wedi dweud wrthym fod gennych ddiddordeb dysgu sut i ffensio a chreu wal sych.  Byddwn yn cynnig sesiynau hyfforddi yn y sgiliau yma a nifer o rhai eraill hefyd.  Roedd y digwyddiad bondocio a chreftau'r goedwig yn hynod boblogaidd felly mae hwn yn mynd i gael ei gynnal eto yn mis Mawrth 2020.

sylwadau neu gwestiynau yna cysylltwch â ni yn uniongyrchol.

*We plan to run all manner of exciting activities over the next year including a Dark Sky event in the New Year and an art trail in the woods during the Easter holidays. There will be an opportunity to take part in conservation tasks at the local nature reserves every Tuesday and learn new skills through training sessions. You have told us that you are interested in learning how to fence and create a dry wall. We will offer training sessions in these skills as well as many others. The coppicing and coppice crafts event was hugely popular so this is going to be held again in March 2020.*

*To find out all the things that will be happening over the coming months keep an eye on our social websites. If you have any comments or questions then please contact us directly.*

*Copyright © 2019 Menter Mon, All rights reserved.*

**Our mailing address is:**
cwlwmseiriol@mentermon.com

Want to change how you receive these emails?
You can update your preferences or unsubscribe from this list.

This email was sent to <<Email Address>>
*why did I get this?* unsubscribe from this list update subscription preferences
Menter Mon · Neuadd y Dre · Sgwar Bulkeley · Llangefni, Ynys Mon LL77 7LR · United Kingdom

mailchimp